Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

# Adolygiad o'r Rheolau ynghylch gweithredu Grwpiau Trawsbleidiol

Ebrill 2023

Creodd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ("y Pwyllgor") y Rheolau ynghylch gweithredu Grwpiau Trawsbleidiol ("y Rheolau") yn 2013. Cytunodd y Pwyllgor i drafod y Rheolau a'r Grwpiau Trawsbleidiol yn fwy cyffredinol fel rhan o'i ymchwiliad i lobïo.

# 1. Rhagair y Cadeirydd

Mae Grwpiau Trawsbleidiol yn rhan werthfawr o’r broses ddemocrataidd ac maent yn cynnig fforwm i Aelodau o’r Senedd (Aelodau) o wahanol grwpiau gwleidyddol drafod buddiannau a rennir mewn meysydd pwnc sy’n berthnasol i’r Senedd.

Cafodd yr adolygiad diwethaf o'r rheolau ar Grwpiau Trawsbleidiol ei gynnal gan Bwyllgor Safonau Ymddygiad y Bedwaredd Senedd yn 2013. Ar ôl bod ar waith ers bron i ddegawd, roedd yn ymddangos yn amserol adolygu'r rheolau ochr yn ochr â'r ymchwiliad i lobïo o ystyried y gorgyffwrdd yn y maes pwnc.

Canfu'r Pwyllgor fod y rheolau wedi bod yn gweithio'n dda, ond bod angen iddynt ystyried newidiadau dros y deng mlynedd diwethaf, megis y ffaith fod y Senedd wedi dod yn senedd swyddogol a phandemig COVID-19. Rydym wedi cytuno i ddychwelyd at y rheolau hyn ar ddiwedd y Senedd hon i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas at y diben ar gyfer unrhyw newidiadau yn sgil diwygio’r Senedd. Fel rhan o’n hymchwiliad fe wnaethom gynnal ymgynghoriad ac ystyried y trefniadau o ran Grwpiau Trawsbleidiol mewn seneddau eraill y DU. Mae'r newidiadau y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor yn diweddaru'r rheolau, gan sicrhau cymesuredd ac eglurder i’r sawl sy’n gysylltiedig.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i bawb a gyfrannodd at yr ymchwiliad hwn am roi o’u hamser i roi tystiolaeth werthfawr i ni, a sicrhau ein bod wedi gallu gwneud newidiadau angenrheidiol i'r Rheolau ar gyfer gweithredu Grwpiau Trawsbleidiol.

Vikki Howells AS
Cadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

# Casgliadau

**Conclusion 1.** Cytunodd y Pwyllgor i ddiweddaru'r rheolau i ffurfioli'r gallu i Grwpiau Trawsbleidiol gael eu cynnal mewn fformatau cyfarfodydd rhithwir a hybrid. 7

**Conclusion 2.** Cytunodd y Pwyllgor y dylid newid y gofyniad i Grwpiau Trawsbleidiol gynnwys Aelodau o o leiaf tri grŵp plaid gwleidyddol i dair plaid wleidyddol er mwyn hwyluso Aelodau sy'n cynrychioli plaid wleidyddol nad yw'n cyrraedd trothwy'r Senedd ar gyfer ffurfio grŵp gwleidyddol. 9

**Conclusion 3.** Cytunodd y Pwyllgor i gyflwyno gofyniad yn y rheolau i o leiaf un Aelod o'r Senedd fod yn bresennol ym mhob un o'r cyfarfodydd Grŵp Trawsbleidiol. 10

**Conclusion 4.** Cytunodd y Pwyllgor i adolygu'r gofyniad i o leiaf un Aelod o'r Senedd fod yn bresennol ym mhob un o'r cyfarfodydd Grŵp Trawsbleidiol cyn diwedd y Chweched Senedd. 10

**Conclusion 5.** Nododd y Pwyllgor eglurhad y Prif Weithredwr o'r rheolau ynghylch hawlio am dreuliau, a chytunodd i ddiweddaru'r rheolau yn unol â hynny. 11

**Conclusion 6.** Cytunodd y Pwyllgor y dylid cyhoeddi holl gyfarfodydd Grwpiau Trawsbleidiol ar un calendr ar wefan y Senedd. 13

**Conclusion 7.** Daeth y Pwyllgor i'r casgliad mai'r Cadeirydd sy'n atebol yn y pen draw, ac mai'r Cadeirydd, eu staff a'r ysgrifenyddiaeth sy'n gyfrifol am ddatblygu perthnasoedd gwaith effeithiol i leihau'r oedi wrth wneud penderfyniadau. 13

**Conclusion 8.** Cytunodd y Pwyllgor y gallai newidiadau i aelodaeth Grwpiau Trawsbleidiol gael eu cwblhau drwy e-bostio swyddogion. 14

# 2. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn nodi dull y Pwyllgor o ymdrin â'r ymchwiliad i Grwpiau Trawsbleidiol, gan ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ogystal â chanlyniadau adolygiad mewnol o'r Rheolau.

Mae pob adran yn tynnu sylw at faes a godwyd fel rhan o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, yr ystyriaeth a roddwyd i'r rhain gan y Pwyllgor, a chasgliadau'r Pwyllgor. Mae'r rheolau diwygiedig drafft, sef casgliad y gwaith hwn, wedi'u nodi mewn dau atodiad, sy'n dangos fersiwn gyda'r newidiadau wedi'u tracio, a fersiwn lân.

## Y cefndir

**1.** Cwblhaodd Pwyllgor Safonau Ymddygiad y Pedwerydd Cynulliad ymchwiliad i lobïo yn 2013. Fel rhan o'r gwaith hwn, adolygodd y trefniadau ar gyfer Grwpiau Trawsbleidiol, a lluniodd y Rheolau cyfredol ynghylch gweithredu Grwpiau Trawsbleidiol. Cytunwyd ar y rhain drwy benderfyniad yn y Cyfarfod Llawn ym mis Mehefin 2013, a disodlwyd 'Canllawiau'r Llywydd ar Ffurfio Grwpiau Trawsbleidiol' a grëwyd ym mis Mawrth 2004.

**2.** Mae'r Pwyllgor wedi cymryd perchnogaeth o'r Rheolau ac wedi ymrwymo i'w hadolygu fel rhan o'i Flaenraglen Waith ar gyfer y Chweched Senedd.

**3.** Fel yn 2013, mae'r adolygiad hwn yn cael ei gynnal fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor i lobïo, oherwydd y gorgyffwrdd yn y pwnc dan sylw. Cytunodd y Pwyllgor yn ystyried a yw'r rheolau yn darparu canllawiau digonol, a ydynt yn glir, yn hygyrch ac yn dryloyw i randdeiliaid allweddol, ac a ydynt yn parhau i fod yn addas at y diben yn ystod y Chweched Senedd.

**4.** Gall Aelodau o'r Senedd ("Aelodau") sefydlu Grwpiau Trawsbleidiol mewn perthynas ag unrhyw faes pwnc sy'n berthnasol i'r Senedd. Rhaid i Grŵp gynnwys Aelodau o'r tri grŵp plaid gwleidyddol sydd wedi'u cynrychioli yn y Senedd. Nid yw Grwpiau Trawsbleidiol yn cael eu sefydlu gan y Senedd, nac yn cael eu llywodraethu gan ei Reolau Sefydlog, ac nid ydynt yn rhan swyddogol o fusnes y Senedd. Fodd bynnag, mae'r Senedd yn chwarae rhan yn y gwaith o gydnabod a chofrestru Grwpiau Trawsbleidiol, sy'n rhoi'r hawl i ddefnyddio rhai adnoddau.

**5.** Er nad oes gan Grwpiau Trawsbleidiol rôl ffurfiol yn y broses o ddatblygu polisïau, maen nhw'n cael eu cydnabod yn eang am fod yn rhan werthfawr o'r broses ddemocrataidd.

**6.** Cyhoeddodd y Pwyllgor ymgynghoriad ar lobïo a gynhaliwyd rhwng 13 Mai a 23 Mehefin 2022, a oedd yn cynnwys un cwestiwn ar Grwpiau Trawsbleidiol:

> 'Beth yw eich dealltwriaeth chi o'r rôl y mae Grwpiau Trawsbleidiol yn ei chwarae mewn perthynas â lobïo yn y Senedd, ac a oes gennych unrhyw sylwadau/pryderon?'

**7.** Gwnaeth y rhan fwyaf o’r rhai a ymatebodd i’r ymgynghoriad ateb y cwestiwn hwn a rhoddwyd ystyriaeth i’w safbwyntiau yn yr ymchwiliad hwn. Mae'r ymatebion hynny a oedd yn ymdrin â Grwpiau Trawsbleidiol wedi'u rhestru yn Atodiad A, a gellir gweld set lawn o'r ymatebion hynny i'r ymgynghoriad ar wefan y Pwyllgor.

**8.** Fe wnaeth y Pwyllgor hefyd gyhoeddi ymgynghoriad penodol ar Grwpiau Trawsbleidiol a gynhaliwyd rhwng 11 Gorffennaf a 2 Medi 2022. Cafodd y Pwyllgor chwech o ymatebion, a drafododd yn ei gyfarfod ar 10 Hydref 2022. Ceir rhestr lawn o’r ymatebwyr yn Atodiad A ac mae’r gyfres lawn o ymatebion i’r ymgynghoriad i’w gweld ar wefan y Pwyllgor.

**9.** Gofynnodd y Pwyllgor i swyddogion am ragor o wybodaeth am nifer o bynciau a thrafodwyd eto yn ei gyfarfodydd ar 12 Rhagfyr 2022, 16 Ionawr 2023 a 13 Chwefror 2023.

**10.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi newidiadau'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad i'r rheolau ynghylch Grwpiau Trawsbleidiol.

# 3. Ymgynghoriad cyhoeddus

**6.** Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 11 Gorffennaf a 2 Medi 2022 a gwahoddwyd barn benodol ar y canlynol:

- Beth yw eich barn am y trefniadau ar gyfer Grwpiau Trawsbleidiol yn y Senedd?
- A oes gennych unrhyw bryderon neu ydych wedi cael unrhyw broblemau â'r trefniadau? Os felly, beth?
- A yw’r rheolau presennol yn adlewyrchu swyddogaethau a chyfrifoldebau Grwpiau Trawsbleidiol, fel yr ydych yn eu deall?
- A oes unrhyw gamau pellach y gellid eu cymryd i wella tryloywder ar gyfer grwpiau trawsbleidiol? Os felly, beth?

**7.** Daeth chwe ymateb i law, pump gan sefydliadau'r trydydd sector ac un gan y Grŵp Llafur. Yn ogystal, cyflwynodd Plaid Cymru a sawl sefydliad trydydd sector farn ar Grwpiau Trawsbleidiol fel rhan o'r ymgynghoriad ar lobïo.

**8.** Roedd 70 o Grwpiau Trawsbleidiol yn weithredol ar adeg yr ymgynghoriadau ar lobïo a Grwpiau Trawsbleidiol, fodd bynnag, dim ond un Grŵp Trawsbleidiol a ymatebodd yn uniongyrchol.

### Ymatebion i’r ymgynghoriad

**9.** Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn gadarnhaol ynghylch rôl a gwerth Grwpiau Trawsbleidiol. Cyfeiriodd sawl ymateb at 'ddiffyg eglurder' a'r angen am 'fwy o gysondeb' yn y trefniadau. Nodwyd hefyd y 'dylid gorfodi'r rheolau presennol yn fwy cyson'.

**10.** Roedd yr ymatebwyr hefyd yn fodlon ar y cyfan â'r trefniadau presennol ar gyfer Grwpiau Trawsbleidiol. Teimlwyd bod y trefniadau’n ymddangos yn gadarn, yn parhau i sicrhau’r cydbwysedd cywir rhwng tryloywder ac ymarferoldeb, a bod Grwpiau Trawsbleidiol yn fforwm gwerthfawr ar gyfer rhannu mewnwelediad arbenigol ac yn cynnig cyfleoedd ar gyfer trafodaethau traws-sector ar faterion allweddol.

# Themâu’r ymgynghoriad

### Cyfarfodydd rhithwir/hybrid

**11.** Cyn y pandemig, roedd cyfarfodydd Grwpiau Trawsbleidiol yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb, fel arfer ar ystâd y Senedd. Yn ystod y pandemig, cafwyd nifer o geisiadau gan Grwpiau Trawsbleidiol amrywiol ynglŷn â’r opsiwn i gynnal cyfarfodydd yn rhithwir. Roedd holl fusnes y Senedd yn ystod y cyfnod hwnnw yn cael ei gynnal naill ai'n rhithwir neu mewn fformat hybrid, ac felly roedd Grwpiau Trawsbleidiol yn cael cynnal cyfarfodydd yn yr un fformat.

**12.** Dywedodd y Grŵp Llafur fod y ‘gallu i gyfarfod yn rhithwir yn y blynyddoedd diwethaf wedi bod o fudd enfawr’ gan bwysleisio bod hyn yn ‘sicrhau bod mwy o bobl yn gallu bod yn bresennol, yn lleihau’r angen i deithio, ac yn agor mwy o slotiau amser ar gyfer cyfarfodydd’.

**13.** Fodd bynnag, mynegodd y Grŵp Llafur bryder y gallai cyfarfodydd rhithwir ‘godi her’ o ran sicrhau bod cyfleusterau cyfieithu ar gael mewn cyfarfodydd.

## Trafodaeth gan y Pwyllgor

**14.** Yn ei gyfarfod ar 10 Hydref 2022, nododd y Pwyllgor nad yw'r rheolau presennol yn cynnwys unrhyw ganllawiau ar fformat cyfarfodydd, a chytunwyd y dylid eu diweddaru i ffurfioli'r gallu i Grwpiau Trawsbleidiol gael eu cynnal mewn fformatau cyfarfodydd rhithwir a hybrid.

**15.** Nododd y Pwyllgor hefyd fod cyfleusterau cyfieithu ar gael ar gyfer pob fformat o gyfarfod Grŵp Trawsbleidiol, gan gynnwys cyfarfodydd rhithwir.

**Conclusion 1.** Cytunodd y Pwyllgor i ddiweddaru'r rheolau i ffurfioli'r gallu i Grwpiau Trawsbleidiol gael eu cynnal mewn fformatau cyfarfodydd rhithwir a hybrid.

### Aelodaeth Grwpiau Trawsbleidiol a gofynion Aelodau

**16.** Yn ôl y rheolau, mae'n rhaid i’r Grŵp Trawsbleidiol gynnwys Aelodau o o leiaf tri grŵp plaid gwleidyddol a gynrychiolir yn y Senedd. Gall Grwpiau Trawsbleidiol hefyd gynnwys unigolion o'r tu allan i'r Senedd yn ôl disgresiwn y Grŵp. Mae strwythur gwleidyddol y Chweched Senedd yn cynnwys tri grŵp gwleidyddol yn unig.

**17.** Awgrymodd y Grŵp Llafur y dylid diwygio'r rheolau er mwyn lleihau’r gofyniad o ran Aelodau i ddwy blaid wleidyddol. Gwnaethant awgrymu hefyd y dylai hyn gynnwys Aelodau annibynnol neu Aelodau sy’n cynrychioli plaid wleidyddol arall nad yw’n cyrraedd trothwy’r Senedd ar gyfer ffurfio grŵp plaid swyddogol.

**18.** Nododd ColegauCymru nad oedd y gofyniad o ran Aelodau i ffurfio Grŵp Trawsbleidiol yn nodi’r nifer penodol o Aelodau a ddylai fod yn bresennol mewn cyfarfodydd. Awgrymodd y dylai'r 'Senedd archwilio sut i annog Aelodau o’r Senedd yn fwy taer i fod yn bresennol i sicrhau bod cyfarfodydd yn wirioneddol drawsbleidiol'.

**19.** Cyfeiriodd ColegauCymru at y trefniadau yn yr Alban lle mae'n rhaid i o leiaf dau Aelod o Senedd yr Alban (ASA) sydd yn aelodau cofrestredig o'r grŵp fod yn bresennol. Gwnaethant awgrymu y byddai cyflwyno cyfyngiad ar nifer y grwpiau y gall Aelod ymuno â nhw yn 'lleihau llwythi gwaith Aelodau' ac yn 'sicrhau eu hymrwymiad i Grwpiau Trawsbleidiol’.

**20.** Fe wnaethon nhw awgrymu 'i gynyddu tryloywder a sicrhau bod Grwpiau Trawsbleidiol yn parchu'r broses ddemocrataidd', y dylid darparu eglurder yn y rheolau o ran y gofynion i Aelodau fod yn bresennol mewn Grwpiau Trawsbleidiol.

## Trafodaeth gan y Pwyllgor

**21.** Yn ei gyfarfod ar 10 Hydref 2022, trafododd y Pwyllgor y trothwy ar gyfer Aelodau a strwythur presennol y Senedd mewn perthynas â ffurfio Grŵp Trawsbleidiol. Nododd y Pwyllgor, er mai dim ond un Aelod o’r Democratiaid Rhyddfrydol sydd yn y Chweched Senedd, ac nad yw’n cael ei ystyried yn grŵp at ddibenion y Rheolau Sefydlog, ystyrir ei fod yn grŵp at ddibenion ffurfio Grŵp Trawsbleidiol.

**22.** Cytunodd y Pwyllgor y dylid newid y gofyniad i Grwpiau Trawsbleidiol gynnwys Aelodau o o leiaf tri grŵp plaid gwleidyddol i dair plaid wleidyddol er mwyn hwyluso Aelodau sy'n cynrychioli plaid wleidyddol nad yw'n cyrraedd trothwy'r Senedd ar gyfer ffurfio grŵp gwleidyddol.

**23.** Bu'r Pwyllgor hefyd yn ystyried a ddylai'r rheolau nodi y dylai isafswm o Aelodau fod yn bresennol ym mhob cyfarfod Grŵp Trawsbleidiol, fel sy'n digwydd er enghraifft yn yr Alban.

**24.** Cytunodd y Pwyllgor, yn ei gyfarfod ar 12 Rhagfyr 2022, y dylai’r rheolau gyflwyno gofyniad i o leiaf un Aelod o’r Senedd fod yn bresennol ym mhob un o’r cyfarfodydd Grŵp Trawsbleidiol. Dangosodd y wybodaeth ychwanegol a roddwyd i’r Pwyllgor (isod) fod o leiaf un Aelod wedi bod yn bresennol ym mhob un o gyfarfodydd y Grwpiau Trawsbleidiol a gynhaliwyd yn y Chweched Senedd hyd at y dyddiad hwnnw.

| Nifer yr Aelodau a oedd yn bresennol | Nifer y cyfarfodydd |
|---:|---:|
| 1 | 24 |
| 2 | 34 |
| 3 | 36 |
| 4 | 28 |
| 5 | 22 |
| 6 | 14 |
| 13 | 10 |
| 8 | 2 |
| 9 | 3 |
| 12 | 2 |
| Heb ei restru[1] | 3 |
| Cyfanswm Terfynol | 177 |

**25.** At hynny, cytunodd y Pwyllgor i adolygu’r gofyniad ynghylch presenoldeb Aelodau cyn diwedd y Chweched Senedd os yw diwygio'r Senedd yn cynyddu nifer yr Aelodau.

**Conclusion 2.** Cytunodd y Pwyllgor y dylid newid y gofyniad i Grwpiau Trawsbleidiol gynnwys Aelodau o o leiaf tri grŵp plaid gwleidyddol i dair plaid

[1] Nid oedd tair set o gofnodion o’r rhan gynnar o’r Senedd hon yn rhestru pwy fu’n bresennol. Ers hynny mae'r Swyddfa Gyflwyno wedi cyflwyno gwiriadau i sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei chynnwys ym mhob un o gofnodion y Grwpiau Trawsbleidiol cyn iddynt gael eu cyhoeddi.

wleidyddol er mwyn hwyluso Aelodau sy'n cynrychioli plaid wleidyddol nad yw'n cyrraedd trothwy'r Senedd ar gyfer ffurfio grŵp gwleidyddol.

**Conclusion 3.** Cytunodd y Pwyllgor i gyflwyno gofyniad yn y rheolau i o leiaf un Aelod o'r Senedd fod yn bresennol ym mhob un o'r cyfarfodydd Grŵp Trawsbleidiol.

**Conclusion 4.** Cytunodd y Pwyllgor i adolygu'r gofyniad i o leiaf un Aelod o'r Senedd fod yn bresennol ym mhob un o'r cyfarfodydd Grŵp Trawsbleidiol cyn diwedd y Chweched Senedd.

## Rheolau Ariannol

**26.** Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad, nododd y Grŵp Llafur 'O ran y rheolau ariannol, gall y ffaith nad yw Grwpiau Trawsbleidiol yn cael eu hystyried yn rhan ffurfiol o'n gwaith fel Aelodau hefyd achosi problemau'. Mae'r rheol hon yn golygu na all Aelodau hawlio unrhyw gostau teithio neu wariant arall sy'n ymwneud â Grwpiau Trawsbleidiol o'u lwfansau. O ganlyniad i hynny, mae'n bosibl y bydd Aelodau'n cael eu rhwystro rhag ymgymryd yn llawn â rhywfaint o waith Grwpiau Trawsbleidiol, megis teithio i ymweliad allanol a drefnwyd gan y Grŵp a allai olygu teithio sylweddol neu aros dros nos.

**27.** Ysgrifennodd y Pwyllgor at Brif Weithredwr a Chlerc (Prif Weithredwr) y Senedd ar 14 Hydref 2022 i ofyn am eglurder ynghylch y rheolau ar yr hyn y gall Aelodau ei hawlio mewn perthynas â Grwpiau Trawsbleidiol.

**28.** Nododd yr ymateb gan y Prif Weithredwr a ddaeth i law ar 23 Tachwedd 2022 y canlynol:

> *"Y Bwrdd Taliadau sy'n penderfynu ar y dibenion y mae'n darparu lwfansau ar eu cyfer, y gall Aelodau hawlio ohonynt, a sut y disgrifir y rheini. Mater i Aelodau unigol yw penderfynu sut i gyflawni eu dyletswyddau, a gallant wneud hawliadau yn unol â'r Penderfyniad lle mae hynny'n berthnasol. Credaf fod geiriad presennol y Penderfyniad yn golygu bod y ffaith y gall gweithgaredd penodol ddod o dan nawdd Grŵp Trawsbleidiol yn gysylltiedig â'r cwestiwn ynghylch a ellir gwneud yr hawliad ai peidio. Gall fod sefyllfa lle mae pwnc y Grŵp Trawsbleidiol yn un sy'n arbennig o berthnasol i etholaeth neu ranbarth yr Aelod, neu gallai'r Grŵp Trawsbleidiol gynnwys materion sydd (neu a all fod yn gyfreithlon) yn cael eu trafod gan y Senedd. Mater i bob Aelod yw barnu a yw gweithgaredd y Grŵp*

*Trawsbleidiol yn rhan angenrheidiol o'i ddyletswyddau, ac os felly gallai hawliad fod yn dderbyniadwy....*

*Wrth adrodd ar eich ymchwiliad presennol, efallai yr hoffai'r Pwyllgor ei gwneud yn glir bod y darpariaethau a nodir yn y Rheolau a'r Canllawiau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd yn nodi'r defnydd a ganiateir o adnoddau o gyllidebau gweithredol Comisiwn y Senedd. Nid ydynt yn gwahardd gwneud hawliadau derbyniadwy o lwfansau a ddarperir yn y Penderfyniad lle mae'r Aelodau'n ymgymryd â gweithgareddau er mwyn cyflawni eu dyletswyddau."*

**29.** Nododd y Prif Weithredwr hefyd y gellid rhannu'r dehongliad a roddwyd yn ei hymateb gyda'r Bwrdd Taliadau.

## Trafodaeth gan y Pwyllgor

**30.** Nododd y Pwyllgor yr ymateb yn ei gyfarfod ar 28 Tachwedd 2022 a chytunodd i ychwanegu eglurder i'r rheolau trwy ddileu'r llinell ganlynol o'r adran yn ymwneud â 'Rheolau Ariannol': *'Ni fydd cyllideb gan y Senedd i dalu costau cynnal Grwpiau Trawsbleidiol'.* Cytunodd y Pwyllgor ymhellach i gynnwys cyfeiriad at allu'r Aelodau i hawlio yn unol â'r Rheolau a Chanllawiau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd.

**31.** Ymhellach at hyn, ysgrifennodd y Cadeirydd at y Prif Weithredwr ar 7 Rhagfyr 2022 i nodi gwerthfawrogiad y Pwyllgor o'r eglurhad ynghylch hawliadau yn ymwneud â Grwpiau Trawsbleidiol a chytunodd gyda'r awgrym i rannu'r cyngor â'r Bwrdd Taliadau.

**Conclusion 5.** Nododd y Pwyllgor eglurhad y Prif Weithredwr o'r rheolau ynghylch hawlio am dreuliau, a chytunodd i ddiweddaru'r rheolau yn unol â hynny.

### Hyrwyddo/hygyrchedd a chyhoeddi gwybodaeth

**32.** Teimlai nifer o'r ymatebwyr fod angen gwneud mwy i sicrhau bod cyfarfodydd Grwpiau Trawsbleidiol yn cael eu hysbysebu'n dda ac yn hawdd dod o hyd iddynt ar wefan y Senedd. Awgrymwyd bod angen canfod gwahanol ffyrdd o hyrwyddo Grwpiau Trawsbleidiol er mwyn 'gwella tryloywder ac ymgysylltu â chynulleidfa ehangach'.

**33.** Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn teimlo:

- bod Grwpiau Trawsbleidiol ar wefan y Senedd yn cynnwys manylion a gwybodaeth cyfyngedig am bob Grŵp, gyda diffyg cysondeb o ran y manylion a ddarparwyd ar nod cyffredinol pob Grŵp Trawsbleidiol;

- dylai'r Senedd ystyried sut y gellid annog Aelodau i gymryd rhan mewn Grwpiau Trawsbleidiol i sicrhau bod 'cyfarfodydd yn wirioneddol drawsbleidiol';

- mae angen gwneud mwy i sicrhau bod cyfarfodydd Grwpiau Trawsbleidiol yn cael eu 'hysbysebu'n dda', 'yn agored i bawb' ac i 'ddod o hyd i ffyrdd o gynnwys sefydliadau llai er mwyn sicrhau nad yw rhai yn ystyried bod y cyfarfodydd yn gaeedig ac yn gweithredu ar sail gwahoddiad yn unig’; a

- mae angen i wybodaeth fel cofnodion/adroddiadau blynyddol a dyddiadau cyfarfodydd fod yn fwy hygyrch a chael eu cyhoeddi mewn modd amserol.

**34.** Yn eu hymatebion i'r ymgynghoriad ar lobïo, cododd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Camlas, ERS Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru bryderon cyffredinol ynghylch tryloywder a hygyrchedd, a nododd Age Cymru'r anawsterau y gallai Aelodau eu hwynebu o ran argaeledd i fynd i gyfarfodydd o ystyried nifer y Grwpiau Trawsbleidiol sydd ar gael.

**35.** Dywedodd Deryn fod adroddiadau ariannol yn rhoi darlun anghyflawn gan nad ydynt yn cynnwys yr amser a roddir gan yr ysgrifenyddiaeth, sydd yn aml yn lobïwr. Nododd y Gymdeithas Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu y gofyniad i gynnwys manylion lobïwyr a sefydliadau gwirfoddol neu elusennol mewn adroddiad blynyddol a dywedodd y dylid ehangu hyn i gynnwys yr holl lobïwyr mewnol.

## Trafodaeth gan y Pwyllgor

**36.** Nododd y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 10 Hydref 2022 y bu nifer o broblemau yn y gorffennol ynghylch cyhoeddi cofnodion ac adroddiadau blynyddol yn brydlon. Dywedodd swyddogion Comisiwn y Senedd wrth y Pwyllgor fod gwaith wedi’i gwblhau yn y maes hwn yn ystod haf 2022 i ddiweddaru a chyhoeddi dogfennau perthnasol, a bod proses gyflym bellach ar waith ar gyfer cyhoeddi’r ddogfennaeth hon.

**37.** Cytunodd y Pwyllgor y byddai’n fuddiol cyhoeddi holl gyfarfodydd y Grwpiau Trawsbleidiol ar un calendr ar wefan y Senedd er mwyn mynd i’r afael

â'r pryderon a godwyd ynghylch hygyrchedd gwybodaeth, a gofynnodd i swyddogion ymchwilio i'r posibilrwydd hwnnw.

**38.** Nododd y Pwyllgor y byddai'r cynnig i ddefnyddio adnoddau'r Senedd ar wahân i dudalennau gwe Pwyllgorau Trawsbleidiol i hyrwyddo cyfarfodydd grŵp yn golygu newid sylfaenol i'r rheolau ynghylch Grwpiau Trawsbleidiol a'u mynediad at adnoddau'r Senedd, a chytunodd i beidio â mynd ar drywydd hyn fel rhan o'r ymchwiliad.

**Conclusion 6.** Cytunodd y Pwyllgor y dylid cyhoeddi holl gyfarfodydd Grwpiau Trawsbleidiol ar un calendr ar wefan y Senedd.

### Annibynniaeth i Ysgrifenyddion

**39.** Yn ystod yr ymgynghoriad, awgrymodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru 'y byddai'n ddefnyddiol pe bai Ysgrifenyddion Grwpiau Trawsbleidiol..yn cael ychydig mwy o annibyniaeth ar Gadeiryddion y Grwpiau'. Nodwyd bod yn rhaid gwneud yr holl drefniadau ar gyfer Grwpiau Trawsbleidiol 'drwy swyddfa'r Cadeirydd' ac er bod hyn yn 'gweithio'n dderbyniol, gall fod yn feichus a chymryd amser hir i wneud penderfyniadau, ac ymateb i Ysgrifenyddion gyda chaniatâd i fynd ymlaen â cham nesaf y trefniadau'.

**40.** Gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth ychwanegol ynghylch trefniadau Ysgrifenyddion Grwpiau Trawsbleidiol ar draws deddfwrfeydd eraill y DU i gynorthwyo eu hystyriaeth ymhellach ar y mater hwn.

## Trafodaeth gan y Pwyllgor

**41.** Yn ei gyfarfod ar 12 Rhagfyr 2022, bu'r Pwyllgor yn trafod trefniadau ar draws deddfwrfeydd eraill y DU, a'r risgiau a'r manteision posibl o ganiatáu mwy o annibyniaeth i Ysgrifenyddion. Nododd yr Aelodau fod rheolau'r Senedd yn hyn o beth yn gyson â'r rhai mewn mannau eraill a chan gofio pwysigrwydd cynnal cyfrifoldeb Cadeiryddion am redeg grwpiau, gwnaethant gytuno y dylai'r Senedd gynnal y drefn bresennol.

**42.** Cytunodd y Pwyllgor y gallai newidiadau i aelodaeth Grwpiau Trawsbleidiol gael eu cwblhau drwy e-bostio swyddogion perthnasol y Senedd yn hytrach na chwblhau ffurflen gofrestru ddiwygiedig fel y nodwyd yn flaenorol yn y rheolau.

**Conclusion 7.** Daeth y Pwyllgor i'r casgliad mai'r Cadeirydd sy'n atebol yn y pen draw, ac mai'r Cadeirydd, eu staff a'r ysgrifenyddiaeth sy'n gyfrifol am ddatblygu perthnasoedd gwaith effeithiol i leihau'r oedi wrth wneud penderfyniadau.

**Conclusion 8.** Cytunodd y Pwyllgor y gallai newidiadau i aelodaeth Grwpiau Trawsbleidiol gael eu cwblhau drwy e-bostio swyddogion.

# Newidiadau ychwanegol i'r Rheolau

**43.** Fel rhan o'r adolygiad o reolau Grwpiau Trawsbleidiol, fe wnaeth swyddogion Comisiwn y Senedd hefyd gwblhau adolygiad mewnol gydag adrannau perthnasol. O ganlyniad i hyn, nodwyd newidiadau pellach i’w gwneud er mwyn sicrhau bod y rheolau'n gyfredol â'r ffyrdd presennol o weithio, ac i ddileu cyfeiriadau at bolisïau nad ydynt yn bodoli mwyach.

**44.** Fe wnaeth y swyddogion hefyd greu taflen gryno o'r Rheolau fel canllaw cyflym ar gyfer y rhai sy'n ymwneud â Grwpiau Trawsbleidiol. Bydd hwn yn dod cyn y Rheolau, ac mae wedi’i gynnwys yn Atodiad B.

**45.** Mae fersiwn gyda’r newidiadau wedi’u tracio o reolau’r Grwpiau Trawsbleidiol sy'n dangos y newidiadau a wnaed yn Atodiad C, ac mae fersiwn lân o'r rheolau yn Atodiad D.

# Atodiad A: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar wefan y Pwyllgor.

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| | **Ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar Grwpiau Trawsbleidiol** |
| **SOC-CPG-01** | Kaleidoscope |
| **SOC-CPG-02** | Grŵp Llafur Cymru |
| **SOC-CPG-03** | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| **SOC-CPG-04** | Y Grŵp Trawsbleidiol ar Ofal Lliniarol a Hosbisau |
| **SOC-CPG-05** | Colegau Cymru |
| **SOC-CPG-06** | Age Cymru |
| | **Ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar lobïo** |
| **SOC-LOB-03** | Sefydliad y Peirianwyr Sifil |
| **SOC-LOB-04** | Grŵp Plaid Cymru |
| **SOC-LOB-07** | Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru |
| **SOC-LOB-08** | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| **SOC-LOB-09** | Colegau Cymru |
| **SOC-LOB-11** | Deryn |
| **SOC-LOB-12** | Materion Cyhoeddus Cymru |
| **SOC-LOB-13** | Camlas |
| **SOC-LOB-14** | Y Gymdeithas Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu |
| **SOC-LOB-16** | UNSAIN |
| **SOC-LOB-17** | Sefydliad Siartredig Cysylltiadau Cyhoeddus |

# Atodiad B – Crynodeb o'r Rheolau

**Rheolau'r Grwpiau Trawsbleidiol - crynodeb**

Mae Grwpiau Trawsbleidiol yn grwpiau o Aelodau o'r Senedd (ASau) a rhanddeiliaid â diddordeb sy'n cael eu ffurfio i ystyried a thrafod diddordebau a rennir ar bynciau penodol. Nid ydynt yn cael eu sefydlu gan y Senedd ei hun, nac yn cael eu llywodraethu gan ei Reolau Sefydlog, ac nid ydynt yn rhan swyddogol o fusnes y Senedd.. Mae'r Senedd yn chwarae rôl wrth gydnabod a chofrestru Grwpiau Trawsbleidiol sy'n caniatáu mynediad at adnoddau penodol yn y Senedd. Er mwyn cofrestru a chynnal y statws hwn, mae grwpiau yn ddarostyngedig i'r 'Rheolau ynghylch gweithredu Grwpiau Trawsbleidiol'.

Bwriedir i'r ddogfen hon fod yn ganllaw cyflym i'r rheolau, ond dylech hefyd gyfeirio at y rheolau llawn a sicrhau eich bod yn cydymffurfio â nhw:

***Mae angen y canlynol er mwyn sefydlu Grŵp Trawsbleidiol:***

- AS fel Cadeirydd;
- cynrychiolwyr AS o dair plaid wahanol;
- cynnal cyfarfod cyffredinol blynyddol dechreuol lle byddwch yn ethol Cadeirydd ac Ysgrifennydd y Grŵp; a
- cwblhau'r gwaith papur a'i ddychwelyd i swyddogion. Rhaid i hyn gynnwys rhestr o holl aelodau'r Grŵp Trawsbleidiol.

***Wrth gynnal cyfarfod Grŵp Trawsbleidiol mae'n rhaid i chi:***

- gyflwyno hysbysiad o'r cyfarfod/agenda i swyddog dirprwyedig y Senedd cyn y cyfarfod;
- cynhyrchu cofnodion pob cyfarfod o fewn pedair wythnos i'r cyfarfod a'u darparu i swyddog dirprwyedig y Senedd; a
- sicrhau bod o leiaf un AS yn bresennol ym mhob cyfarfod.

***Rhaid i Grwpiau Trawsbleidiol:***

- gynnal cyfarfod cyffredinol blynyddol bob deuddeg mis;

- ffeilio adroddiad blynyddol a ffurflen ariannol o fewn 6 wythnos i'r cyfarfod cyffredinol blynyddol; a
- sicrhau y cydymffurfir â'r rheolau ynghylch cofrestru buddiannau a lobïo.

Mae gwybodaeth am gydymffurfiaeth Grwpiau Trawsbleidiol â'r rheolau hyn yn cael ei chasglu'n flynyddol a'i chyflwyno i'r Pwyllgor Safonau. Gallai methiant i gydymffurfio ag unrhyw agwedd ar y rheolau hyn arwain yn y pen draw at ddadgofrestru'r Grŵp.

Gallai methiant i gydymffurfio â'r rheolau hefyd arwain at gŵyn am y Cadeirydd yn cael ei gwneud i'r Comisiynydd Safonau.

# Atodiad C: Rheolau diwygiedig – fersiwn gyda'r newidiadau wedi'u tracio

### 1. Cyflwyniad

Mae gan Grwpiau Trawsbleidiol gydnabyddiaeth eang am fod yn rhan werthfawr o'r broses ddemocrataidd. Mae hi yr un mor bwysig bod G~~g~~rwpiau yn gweithredu mewn modd agored a thryloyw.

~~Mae'r rheolau hyn ar y ffordd mae grwpiau trawsbleidiol yn gweithredu yn disodli Canllawiau'r Llywydd ar Ffurfio Grwpiau Trawsbleidiol, a wnaed ar 10 Mawrth 2004.~~.

~~Mae holl grwpiau trawsbleidiol presennol y Senedd yn ddarostyngedig i'r Rheolau newydd hyn o'r dyddiad y daw'r Rheolau i rym.~~

Cytunwyd ar y 'Rheolau ynghylch gweithredu Grwpiau Trawsbleidiol' drwy benderfyniad y Senedd ym mis Mehefin 2013 ac fe'u diweddarwyd gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar 2 Mai 2023.

Mae pob Grŵp Trawsbleidiol yn ddarostyngedig i'r 'Rheolau ynghylch gweithredu Grwpiau Trawsbleidiol', ac mae'n rhaid iddynt gadw at y rhain er mwyn i Grŵp gael ei gydnabod gan y Senedd a chael mynediad at yr adnoddau a nodir isod.

### 2. Diffiniad a statws

Diben Grwpiau Trawsbleidiol yw cynnig fforwm i Aelodau o'r Senedd o wahanol bleidiau i ddod ynghyd i drafod ac ystyried meysydd sydd o ddiddordeb cyffredinol iddynt

~~Nid yw grwpiau trawsbleidiol yn grwpiau ffurfiol o'r Senedd ac nid ydynt felly'n ddarostyngedig i Reolau Sefydlog y Senedd. Nid oes rôl ffurfiol ganddynt mewn datblygu polisi.~~

~~Caiff Aelodau sefydlu grwpiau trawsbleidiol i ymdrin ag unrhyw faes sy'n berthnasol i'r Senedd, ond ni ddylai geisio dyblygu meysydd swyddogaeth pwyllgorau'r Senedd. Nid oes ganddynt unrhyw bwerau fel sydd gan~~

~~bwyllgorau'r Senedd (h.y. ni allant alw ar unrhyw dystion neu Weinidogion i ddod i'w cyfarfodydd neu i gyflwyno dogfennaeth, ac ni chânt ddefnyddio logo na brand Senedd Cymru).~~

Nid yw Grwpiau Trawsbleidiol yn grwpiau ffurfiol yn y Senedd ac nid ydynt, felly, yn rhan o drafodion y Senedd, nac ychwaith yn ddarostyngedig i Reolau Sefydlog y Senedd Nid oes ganddynt unrhyw bwerau fel sydd gan bwyllgorau'r Senedd (h.y. ni allant alw ar unrhyw dystion neu Weinidogion i ddod i'w cyfarfodydd neu i gyflwyno dogfennaeth, ac ni chânt ddefnyddio logo na brand Senedd Cymru).

Caiff Aelodau sefydlu Grwpiau Trawsbleidiol i ymdrin ag unrhyw faes sy'n berthnasol i'r Senedd, ond ni ddylai geisio dyblygu meysydd swyddogaeth pwyllgorau'r Senedd Nid oes ganddynt rôl ffurfiol yn nhrafodion y Senedd mewn perthynas â datblygu polisïau

## 3. Aelodaeth

Rhaid i'r Grŵp Trawsbleidiol gynnwys Aelodau o o leiaf tair ~~grŵp plaid~~ plaid wleidyddol a gynrychiolir yn y Senedd. Rhaid i o leiaf un Aelod o’r Senedd sy’n aelod o’r Grŵp fod yn bresennol ym mhob un o’r cyfarfodydd Grŵp Trawsbleidiol.

Caiff Grwpiau Trawsbleidiol hefyd gynnwys aelodau o’r tu allan i'r Senedd.. Y Grŵp fydd yn cael penderfynu gwahodd unigolion o'r tu allan i'r Senedd i fod yn aelod..

## 4. Ethol deiliaid swyddi

~~Dylai~~ Rhaid i bob G~~g~~rŵp Trawsbleidiol ethol Cadeirydd ac Ysgrifennydd..

Rhaid i Gadeirydd y Grŵp fod yn Aelod o’r Senedd. Gall Ysgrifennydd y Grŵp fod naill ai'n Aelod Senedd, yn aelod o ~~S~~staff cymorth Aelodau o'r Senedd neu'n unigolyn o'r tu allan i'r Senedd. ~~Pan fydd grŵp yn penodi Ysgrifennydd nad yw'n Aelod Senedd, ni chaiff yr unigolyn hwnnw weithredu heb gael sêl bendith Cadeirydd y grŵp o flaen llaw.~~ Ni chaiff yr Ysgrifennydd weithredu heb gael sêl bendith Cadeirydd y Grŵp o flaen llaw. Rhaid i bob hysbysiad, gohebiaeth, dogfennaeth a threfniadau eraill ynghylch gweithgareddau'r Grŵp gael eu cyhoeddi yn enw'r Cadeirydd.

Fel arfer, rhaid i ~~grŵp~~Grŵp Trawsbleidiol gynnal cyfarfod i ethol ei ddeiliaid swyddi. Disgwylir y bydd deiliaid swyddi yn cael eu hethol i ddechrau mewn cyfarfod cyffredinol blynyddol dechreuol . Fodd bynnag, gall deiliaid swyddi hefyd gael eu hethol yng nghyfarfodydd eraill y Grŵp. Ar ôl ethol deiliad swydd,

dylai Cadeirydd y Grŵp roi hysbysiad ynghylch y newid hwn o fewn pedair wythnos ~~gan ddefnyddio'r ffurflen gofrestru yn atodiad A.~~ drwy gysylltu â'r Swyddogion perthnasol yng Nghomisiwn y Senedd. Bydd gwybodaeth am ddeiliaid swyddi yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Senedd.

### 5. Cofrestru

Ar ôl cynnal cyfarfod cyffredinol blynyddol dechreuol (gweler adran 8) neu ethol deiliaid swyddi drwy ddull arall, dylai Grwpiau Trawsbleidiol gael eu cofrestru drwy ddefnyddio’r ffurflen gofrestru briodol. Rhaid i'r ffurflen gofrestru gael ei ~~llofnodi~~ gyflwyno gan Gadeirydd y ~~g~~Grŵp, a rhaid iddo gynnwys rhestr o~~'r aelodau~~ holl aelodau’r Grŵp (mae adran 3 yn nodi’r gofynion Aelodaeth). ~~gan gynnwys enw o leiaf dau Aelod arall o ddau grŵp plaid arall yn y Senedd, ac enwau holl aelodau'r grŵp nad ydynt yn Aelodau o'r Senedd.~~

Bydd y manylion ar y ffurflenni cofrestru yn cael eu cyhoeddi gan swyddogion Comisiwn y Senedd ar adran y Grŵp Trawsbleidiol perthnasol ar wefan y Senedd.

~~Bydd disgwyl i grwpiau trawsbleidiol sydd eisoes yn bodoli yn y Senedd gynnal cyfarfod cyffredinol blynyddol o fewn 12 mis i'r dyddiad y daeth y rheolau hyn i rym. Bydd disgwyl i unrhyw grwpiau a gaiff eu cofrestru ar ôl y dyddiad hwn gynnal cyfarfod cyffredinol blynyddol o fewn 12 mis i'r dyddiad y cawsant eu cofrestru.~~

### 6. Ailgofrestru Grwpiau Trawsbleidiol ar ôl Cyfnod o Ddiddymiad

Mae'n rhaid i grwpiau ailgofrestru ar ddechrau pob Senedd newydd ar ôl ~~etholiadau~~ etholiad.

### 7. Cofnodi newidiadau

Cadeirydd y Grŵp sy'n gyfrifol am roi gwybod i swyddogion Comisiwn y Senedd am unrhyw newidiadau i fanylion Grwpiau, gan gynnwys newidiadau i ddeiliaid swyddi, ~~drwy gyflwyno ffurflen gofrestru ddiwygiedig. Dylid rhoi gwybod am unrhyw newidiadau~~ o fewn pedair wythnos i'r dyddiad y daethant i rym, ~~a byddant yn cael eu cyhoeddi ar adran y grŵp trawsbleidiol perthnasol ar wefan y Senedd~~. Bydd adran y Grŵp Trawsbleidiol perthnasol ar wefan y Senedd yn cael ei diweddaru yn unol â hynny.

### 8. Y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiad Ariannol

Cyfarfod cyntaf y Grŵp Trawsbleidiol fydd ei gyfarfod cyffredinol blynyddol dechreuol. Yn dilyn hynny, rhaid i Grwpiau gynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol bob 12 mis, lle mae'n rhaid i'r Grŵp enwebu a phleidleisio dros y deiliaid swyddi (gweler yr adran 'Ethol Deiliaid Swyddi' uchod). Rhaid i'r deiliaid swyddi gael eu hethol yn swyddogol yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol hyd yn oed os yw'r deiliad swydd wedi cael ei benodi eisoes mewn cyfarfod diweddar..

O fewn chwe wythnos i gyfarfod cyffredinol blynyddol, rhaid i Grwpiau gyhoeddi Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol. Rhaid i'r adroddiad hwn gynnwys::

- aelodaeth y Grŵp ac enwau deiliaid y swyddi;
- nifer y cyfarfodydd y mae'r Grŵp wedi'u cynnal ers y cyfarfod cyffredinol blynyddol diwethaf, pwy fu'n bresennol, a chrynodeb o'r materion a drafodwyd;
- enwau'r holl lobïwyr proffesiynol a'r sefydliadau gwirfoddol ac elusennol y mae'r Grŵp wedi cwrdd â nhw yn ystod y flwyddyn flaenorol;
- datganiad ariannol blynyddol sy'n nodi gwariant y Grŵp a pha fuddion a lletygarwch a gafodd y Grŵp. Rhaid i'r datganiad gynnwys dadansoddiad o gostau'r holl nwyddau a gwasanaethau a ddarparwyd, a'r buddion a gafwyd, ac enwau'r darparwr/darparwyr.

Rhaid i'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiad Ariannol gael eu cyhoeddi ar adran 'Grwpiau Trawsbleidiol' gwefan y Senedd.

## Cynnal Cyfarfodydd

### 9. Defnyddio Cyfleusterau ac Adnoddau'r Senedd

Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol fydd yn gyfrifol am sicrhau bod y Grŵp yn cydymffurfio â'r Rheolau a Chanllawiau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd. Mae hyn yn cynnwys neilltuo ystafelloedd a'r trefniadau sy'n gysylltiedig â'r cyfarfod (megis hebrwng aelodau allanol) a darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg.

~~Nid yw grwpiau trawsbleidiol yn cael blaenoriaeth dros fusnes swyddogol y Senedd, ac felly dim ond pan fydd cyfleusterau'r Senedd ar gael y cânt eu defnyddio~~

~~Rhaid i Gadeirydd y grŵp wneud cais i neilltuo ystafell ar gyfer cynnal cyfarfod o'r grŵp trawsbleidiol. Yr Aelod hwnnw fydd hefyd yn gyfrifol am holl drefniadau'r cyfarfod gan gynnwys mynd i gwrdd ag aelodau allanol o'r grŵp a'u tywys o amgylch adeiladau'r Senedd.~~

Nid oes gan Grwpiau Trawsbleidiol hawl i ddefnyddio unrhyw rai o wasanaethau staffio Comisiwn y Senedd ~~fel gwasanaethau'r pwyllgorau~~. Fodd bynnag, caiff cyfieithu ar y pryd, o'r Gymraeg i'r Saesneg, ei ddarparu. ~~ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir ar ystâd y Senedd~~ Gellir darparu hyn os bydd Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol yn gwneud cais amdano .

~~Rhaid i grwpiau trawsbleidiol barchu'r cyfyngiadau sydd ar eu defnydd o gyfleusterau ac adnoddau'r Senedd. Caiff Aelodau wneud defnydd rhesymol o gyfleusterau ffôn, ffacs, llungopïo a TG y Senedd ac offer swyddfa'r Senedd wrth ymgymryd â busnes grwpiau trawsbleidiol, neu er mwyn cyflawni gofynion y rheolau hyn, e.e. i ddarparu gwybodaeth i'w chyhoeddi ar wefan y Senedd. Cadeirydd y grŵp trawsbleidiol fydd yn gyfrifol am sicrhau bod y grŵp yn cydymffurfio â'r rheolau ar ddefnydd y grŵp o adnoddau a chyfleusterau'r Senedd. Nid oes gan sefydliadau nac unigolion allanol, sydd â chysylltiadau â grwpiau trawsbleidiol, hawl i ddefnyddio adnoddau'r Senedd.~~

Gellir cynnal cyfarfodydd Grŵp Trawsbleidiol a chyfarfodydd cyffredinol blynyddol wyneb yn wyneb, neu mewn fformat rhithwir neu hybrid yn ôl disgresiwn y Grŵp, ar yr amod bod pob Grŵp yn gwneud y trefniadau angenrheidiol ar gyfer cynnal cyfarfodydd o’r fath. Dylai Grwpiau gyfeirio at **ganllawiau TGCh y Senedd ar gyfarfodydd rhithwir.**

## 10. Darparu gwybodaeth yn ieithoedd swyddogol y Senedd

Bydd yr holl wybodaeth a ddarperir gan Gomisiwn y Senedd ynghylch Grwpiau Trawsbleidiol y mae'n ofynnol ei chyhoeddi ar wefan y Senedd o dan y rheolau hyn, ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg yn unol â darpariaethau Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012 a Chynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Senedd. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am aelodaeth, dyddiad a lleoliadau cyfarfodydd, cofnodion yr holl gyfarfodydd, gan gynnwys y ~~Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol~~ CCB, a'r datganiad ariannol blynyddol.

Y Grŵp Trawsbleidiol ei hun fydd yn gyfrifol am wneud trefniadau i gyfieithu dogfennau sy'n gysylltiedig â'r Grŵp Trawsbleidiol nad oes angen eu cyhoeddi ar wefan y Senedd, os ydynt yn dymuno iddynt gael eu cyhoeddi’n ddwyieithog. .

~~**Cronfa Mynediad Senedd**~~

~~Sefydlwyd y Gronfa Fynediad i sicrhau bod gan Aelodau o'r Senedd y cymorth angenrheidiol i ymgysylltu ag etholwyr sydd ag anghenion amrywiol, ac i ddarparu cymorth ychwanegol i Aelodau anabl a staff cymorth anabl.~~

~~Ni cheir defnyddio'r Gronfa Fynediad i dalu am wasanaethau cyfieithu testun i Ieithoedd Swyddogol y Senedd nac ar gyfer gwasanaethau cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg mewn digwyddiadau a noddir gan Aelodau a gaiff eu trefnu gan gyrff allanol.~~

~~Os yw'r Cadeirydd yn teimlo bod angen cymorth ychwanegol ar y grŵp trawsbleidiol er mwyn caniatáu iddo ymgysylltu ag etholwyr sydd ag anghenion amrywiol, er enghraifft i gyfieithu ar y pryd i iaith ar wahân i un o ieithoedd swyddogol y Senedd, ac na all y cymorth hwn gael ei ddarparu gan aelodaeth y grŵp, yna gallant gyflwyno achos busnes i'r tîm Cymorth Busnes i Aelodau er mwyn defnyddio'r Gronfa. Ceir canllawiau manylach ar y Gronfa Fynediad ar Fewnrwyd yr Aelodau~~ Wrth gyflwyno achos busnes am gymorth ariannol, dylai'r Cadeirydd ystyried statws grwpiau trawsbleidiol a chofio nad ydynt yn rhan o drafodion swyddogol y Senedd.

**11. Cymorth ychwanegol**

Ceir rhagor o fanylion ar y ddarpariaeth ar gyfer cymorth ychwanegol i ymgysylltu ag etholwyr ag anghenion ychwanegol ym mhennod 3A o'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau Aelodau: 2022-23 a gall y tîm Cymorth Busnes i’r Aelodau roi cyngor ychwanegol ar hyn.

**12. Rhoi Gwybod am Gyfarfodydd Ymlaen Llaw**

Fel arfer, cyfrifoldeb Cadeirydd y Grŵp fydd cyhoeddi gwybodaeth am amseroedd a lleoliadau cyfarfodydd y Grŵp ac ati gan gynnwys darparu amseroedd/lleoliad cyfarfodydd i swyddogion perthnasol Comisiwn y Senedd i'w cyhoeddi ar wefan y Grŵp Trawsbleidiol. Os yw'r swyddogaeth honno wedi cael ei dirprwyo i Ysgrifennydd y Grŵp, ni chaiff yr unigolyn hwnnw weithredu heb gael sêl bendith Cadeirydd y Grŵp o flaen llaw. Rhaid i bob hysbysiad, gohebiaeth, dogfennaeth a threfniadau eraill ynghylch gweithgareddau'r Grŵp gael eu cyhoeddi yn enw'r Cadeirydd.

~~Dylai Cadeirydd y grŵp ddarparu manylion am amseroedd a lleoliadau cyfarfodydd i swyddogion perthnasol Comisiwn y Senedd fel y gallant gyhoeddi'r wybodaeth ar yr adran “Grwpiau Trawsbleidiol” ar wefan y Senedd.~~

## 13. Rheolau Ariannol a Chofrestru Buddiannau

~~Nid oes gan y Senedd gyllideb i dalu am gostau rhedeg Grwpiau Trawsbleidiol~~, A~~a~~c eithrio i dalu am yr adnoddau a nodir yn adrannau ~~8-10~~ 9-11 uchod, rhaid i aelodau'r Grŵp dalu am unrhyw gostau eraill o'r fath eu hunain.

Mae'n rhaid i Grwpiau Trawsbleidiol gofio am uniondeb y Senedd wrth ystyried derbyn unrhyw symiau arian, rhoddion, lletygarwch ac ati gan gyrff allanol. Yn benodol, mae gofyn i Aelodau unigol gydymffurfio â'r rheolau ynghylch cofrestru a datgan buddiannau ariannol mewn perthynas ag unrhyw weithgaredd y maent yn ymgymryd â hwy o fewn Grwpiau Trawsbleidiol neu ar ran y Grŵp - fel y'i nodwyd yn Rheol Sefydlog 2. Caiff Aelodau eu hatgoffa hefyd am ddarpariaethau Rheol Sefydlog 2.8, sy'n gwahardd lobïo am dâl neu gydnabyddiaeth ac sy'n drosedd o dan adran 36 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006..

~~Yn benodol, mae Adran 5 o'r Atodiad i Reol Sefydlog 2 yn nodi'r buddiannau cofrestradwy. Mae hyn yn cynnwys; "(iv) rhoddion, lletygarwch, buddion materol neu fantais faterol y mae eu gwerth yn uwch na'r hyn a ragnodir mewn unrhyw benderfyniad gan y Senedd..." a "(v) unrhyw dâl neu fudd materol arall y mae'r Aelod [...] yn ei gael oddi wrth unrhyw gwmni preifat neu gyhoeddus neu unrhyw gorff arall sydd wedi tendro, neu sy'n tendro, am gontract gyda'r Senedd, neu sy'n meddu ar gontract o'r fath."~~

~~Ar 10 Mai 2006, penderfynodd y Senedd mai lefel y gwerth y mae'n rhaid cofrestru/datgan rhoddion, lletygarwch ac unrhyw fuddion eraill yw 0.5 y cant o gyflog blynyddol crynswth sylfaenol y Senedd i Aelod o'r Senedd.~~

~~Mae Aelod o'r Senedd sy'n cymryd rhan yn nhrafodion y Senedd ond nad yw wedi cydymffurfio â'r rheolau ar gofrestru buddiannau yn cyflawni trosedd o dan adran 36 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.~~

~~Yn ogystal â'r gofyniad i Aelodau unigol o grwpiau trawsbleidiol gofrestru unrhyw symiau arian, rhoddion, lletygarwch neu fuddion eraill gan gyrff allanol ar Gofrestr Buddiannau'r Senedd (yn unol â Rheol Sefydlog 2),~~ Dylai adroddiad blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol restru'r holl fuddion a gafwyd gan y Grŵp cyfan, neu gan Aelodau unigol, gan gyrff allanol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw gymorth ysgrifenyddol neu wasanaethau cymorth eraill a ddarperir i'r Grŵp. Mae hyn yn ychwanegol i'r gofyniad bod Aelodau unigol o Grwpiau Trawsbleidiol yn cofrestru unrhyw symiau arian, rhoddion, lletygarwch neu fuddion eraill gan gyrff allanol ar Gofrestr Buddiannau'r Senedd (yn unol â Rheol Sefydlog 2).

~~Caiff Aelodau eu hatgoffa hefyd am ddarpariaethau Rheol Sefydlog 2.8, sy'n gwahardd lobïo am dâl neu gydnabyddiaeth ac sy'n drosedd o dan adran 36 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Caiff lobïo am dâl neu gydnabyddiaeth ei ddiffinio yn y Rheolau Sefydlog fel cychwyn neu ddadlau o blaid "unrhyw achos neu fater ar ran unrhyw gorff neu unigolyn mewn unrhyw drafodion yn y Senedd, nac annog unrhyw Aelod arall i gychwyn neu ddadlau o blaid unrhyw achos neu fater mewn unrhyw drafodion o'r fath, yn gyfnewid am unrhyw dâl neu fudd mewn da, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, y mae'r Aelod, neu, hyd y gŵyr yr Aelod, ei bartner neu unrhyw blentyn dibynnol sydd gan yr Aelod, wedi'i gael neu'n disgwyl ei gael."~~

## ~~8. Y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiad Ariannol~~

~~Rhaid i Gadeirydd y grŵp trawsbleidiol alw am gyfarfod cyffredinol blynyddol bob 12 mis. Yn y cyfarfod hwnnw, rhaid i'r grŵp enwebu a phleidleisio dros y deiliaid swyddi (gweler yr adran 'Ethol deiliaid swyddi' uchod). Rhaid i'r deiliaid swyddi gael eu hethol yn swyddogol yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol hyd yn oed os yw'r deiliad swydd wedi cael ei benodi eisoes mewn cyfarfod diweddar..~~

~~Cyfarfod cyntaf y grŵp fydd ei gyfarfod cyffredinol blynyddol dechreuol. Ar ôl pob cyfarfod cyffredinol blynyddol wedi hynny, rhaid i Gadeirydd y grŵp trawsbleidiol, o fewn 6 wythnos, gyhoeddi adroddiad blynyddol a datganiad ariannol Rhaid i'r adroddiad:~~

- ~~gynnwys aelodaeth y grŵp ac enwau deiliaid y swyddi.;~~
- ~~nodi nifer y cyfarfodydd y mae'r grŵp wedi'u cynnal ers y cyfarfod cyffredinol blynyddol diwethaf, pwy fu'n bresennol, a chrynodeb o'r materion a drafodwyd;~~
- ~~nodi enwau'r holl lobïwyr proffesiynol a'r sefydliadau gwirfoddol ac elusennol y mae'r grŵp wedi cwrdd â nhw yn ystod y flwyddyn flaenorol; a~~
- ~~chynnwys datganiad ariannol blynyddol sy'n nodi gwariant y grŵp a pha fuddion a lletygarwch a gafodd y grŵp. Rhaid i'r datganiad gynnwys dadansoddiad o gostau'r holl nwyddau a gwasanaethau a ddarparwyd, a'r buddion a gafwyd, ac enwau'r darparwr/darparwyr.~~

~~Bydd y cofnodion yn cael eu cyhoeddi ar adran y grŵp trawsbleidiol perthnasol ar wefan y Senedd..~~

## 14. Cofnodion Cyfarfodydd

Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol fydd yn gyfrifol am sicrhau bod cofnodion pob cyfarfod o'r Grŵp yn cael eu rhoi i swyddogion perthnasol Comisiwn y Senedd o fewn pedair wythnos i gynnal y cyfarfod. Rhaid i'r cofnodion gynnwys:

- manylion am leoliad y cyfarfod;
- pwy oedd yn bresennol, gan gynnwys enwau a theitlau deiliaid swyddi'r Grŵp fel y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd, enwau Aelodau'r Grŵp ac ymwelwyr neu westeion allanol, a
- disgrifiad cryno o'r materion a drafodwyd.

Bydd y cofnodion yn cael eu cyhoeddi ar adran y Grŵp Trawsbleidiol perthnasol ar wefan y Senedd.

## 15. Cydymffurfio â'r Rheolau

~~Er bod cyfrifoldeb ar holl Aelodau o'r Senedd sy'n aelodau o Grwpiau Trawsbleidiol i sicrhau bod y grŵp yn cynnal ei fusnes mewn modd priodol~~, Cadeirydd y Grŵp, fel llofnodwr y ffurflen gofrestru, fydd yn bennaf cyfrifol am sicrhau bod y Grŵp yn cydymffurfio â'r rheolau, ond mae gan bob Aelod o’r Senedd sy’n aelodau o’r Grŵp Trawsbleidiol gyfrifoldeb dros sicrhau bod y Grŵp yn cynnal ei fusnes mewn modd priodol.

Gallai methu â chydymffurfio, neu dorri’r rheolau’n ymwneud â Grwpiau Trawsbleidiol yn cofrestru, ethol swydd-ddeiliaid, cynnal cyfarfodydd cyffredinol blynyddol neu ddarparu gwybodaeth sy’n ofynnol yn ôl y rheolau, arwain at ddileu cydnabyddiaeth y Grŵp ar awdurdod y Llywydd (byddai’r Grŵp yn cael ei ddadgofrestru a’i holl fanylion yn cael eu tynnu oddi ar wefan y Senedd).

Os oes gan unrhyw Aelod bryder ynghylch dehongli'r Rheolau, dylai gysylltu â swyddog/swyddogion Comisiwn y Senedd sydd â chyfrifoldeb dros gofrestru Grwpiau Trawsbleidiol yn yr achos cyntaf.

Dylai unrhyw gwynion ynghylch safonau ymddygiad personol, defnydd priodol o adnoddau'r Senedd a/neu gofrestru buddiannau yn unol â Rheol Sefydlog 2, mewn perthynas â gweithgareddau Aelod sy’n gysylltiedig â Grŵp Trawsbleidiol, gael eu gwneud i’r Comisiynydd Safonau yn unol â Gweithdrefn y Senedd ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd. Gall hyn arwain at osod sancsiynau ar Aelod penodol..

O dro i dro, gall y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ystyried papur gan swyddogion y Comisiwn sy'n ymdrin â chofrestru gwybodaeth am weithgareddau Grwpiau Trawsbleidiol ac, os yw'n angenrheidiol, gwneud argymhellion i'r Llywydd ynghylch cydymffurfio â'r rheolau hyn.

# Atodiad D – Fersiwn lân o’r Rheolau ynghylch Gweithredu Grwpiau Trawsbleidiol

**1. Cyflwyniad**

1.1 Mae gan grwpiau trawsbleidiol gydnabyddiaeth eang am fod yn rhan werthfawr o'r broses ddemocrataidd ac mae’n bwysig bod grwpiau yn gweithredu mewn modd agored a thryloyw..

1.2 Cytunwyd ar y 'Rheolau ynghylch gweithredu Grwpiau Trawsbleidiol' drwy benderfyniad y Senedd ym mis Mehefin 2013 ac fe’u diweddarwyd gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar 2 Mai 2023.

1.3 Mae pob Grŵp Trawsbleidiol yn ddarostyngedig i'r 'Rheolau ynghylch gweithredu Grwpiau Trawsbleidiol', ac mae'n rhaid iddynt gadw at y rhain er mwyn i Grŵp gael ei gydnabod/gofrestru gan y Senedd (h.y. bod ganddo statws) a chael mynediad at yr adnoddau a nodir isod.

**2. Diffiniad a statws**

2.1 Diben Grwpiau Trawsbleidiol yw cynnig fforwm i Aelodau o'r Senedd o wahanol bleidiau i ddod ynghyd i drafod ac ystyried meysydd sydd o ddiddordeb cyffredinol iddynt.

2.2 Nid yw Grwpiau Trawsbleidiol yn grwpiau ffurfiol yn y Senedd ac nid ydynt, felly, yn rhan o drafodion y Senedd, nac ychwaith yn ddarostyngedig i Reolau Sefydlog y Senedd. Nid oes ganddynt unrhyw bwerau fel sydd gan bwyllgorau'r Senedd (h.y. ni allant alw ar unrhyw dystion neu Weinidogion i ddod i'w cyfarfodydd neu i gyflwyno dogfennaeth, ac ni chânt ddefnyddio logo na brand Senedd Cymru).

2.3 Caiff Aelodau sefydlu Grwpiau Trawsbleidiol i ymdrin ag unrhyw faes sy'n berthnasol i'r Senedd, ond ni ddylai geisio dyblygu meysydd swyddogaeth pwyllgorau'r Senedd. Nid oes ganddynt rôl ffurfiol yn nhrafodion y Senedd mewn perthynas â datblygu polisïau.

**3. Aelodaeth**

3.1 Rhaid i'r Grŵp Trawsbleidiol gynnwys Aelodau o o leiaf tair plaid wleidyddol a gynrychiolir yn y Senedd. Rhaid i o leiaf un Aelod o’r Senedd sy’n aelod o’r Grŵp fod yn bresennol ym mhob un o’r cyfarfodydd Grŵp Trawsbleidiol.

3.2 Caiff Grwpiau Trawsbleidiol hefyd gynnwys aelodau o'r tu allan i'r Senedd. Y Grŵp fydd yn cael penderfynu gwahodd unigolion o'r tu allan i'r Senedd i fod yn aelod.

**4. Ethol deiliaid swyddi**

4.1 Rhaid i bob Grŵp Trawsbleidiol ethol Cadeirydd ac Ysgrifennydd .

4.2 Rhaid i Gadeirydd y Grŵp fod yn Aelod o'r Senedd. Gall Ysgrifennydd y Grŵp fod naill ai'n Aelod Senedd, yn aelod o staff cymorth Aelodau o'r Senedd neu'n unigolyn o'r tu allan i'r Senedd. Ni chaiff yr Ysgrifennydd weithredu heb gael sêl bendith Cadeirydd y Grŵp o flaen llaw. Rhaid i bob hysbysiad, gohebiaeth, dogfennaeth a threfniadau eraill ynghylch gweithgareddau'r Grŵp gael eu cyhoeddi yn enw'r Cadeirydd.

4.3 Fel arfer, rhaid i Grŵp Trawsbleidiol gynnal cyfarfod i ethol ei ddeiliaid swyddi. Disgwylir y bydd deiliaid swyddi yn cael eu hethol i ddechrau mewn cyfarfod cyffredinol blynyddol dechreuol. Fodd bynnag, gall deiliaid swyddi hefyd gael eu hethol yng nghyfarfodydd eraill y Grŵp. Ar ôl ethol deiliad swydd, dylai Cadeirydd y Grŵp roi hysbysiad ynghylch y newid hwn o fewn pedair wythnos, drwy gysylltu â'r swyddogion perthnasol yng Nghomisiwn y Senedd. Bydd gwybodaeth am ddeiliaid swyddi yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Senedd.

**5. Cofrestru**

5.1 Ar ôl cynnal cyfarfod cyffredinol blynyddol (gweler adran 8) dechreuol neu ethol deiliaid swyddi drwy ddull arall, dylai Grwpiau Trawsbleidiol gael eu cofrestru drwy ddefnyddio'r ffurflen gofrestru briodol. Rhaid i'r ffurflen gael ei chyflwyno gan Gadeirydd y Grŵp a rhestru holl aelodau'r Grŵp (mae adran 3 yn nodi'r gofynion Aelodaeth).

5.2 Bydd y manylion ar y ffurflenni cofrestru yn cael eu cyhoeddi gan swyddogion Comisiwn y Senedd ar adran y Grŵp Trawsbleidiol perthnasol ar wefan y Senedd.

**6. Ailgofrestru Grwpiau Trawsbleidiol ar ôl Cyfnod o Ddiddymiad**

6.1 Mae'n rhaid i Grwpiau ailgofrestru ar ddechrau pob Senedd newydd ar ôl etholiad.

**7. Cofnodi newidiadau**

7.1 Cadeirydd y Grŵp sy'n gyfrifol am roi gwybod i swyddogion Comisiwn y Senedd am unrhyw newidiadau i fanylion Grwpiau, gan gynnwys newidiadau i

ddeiliaid swyddi, o fewn pedair wythnos i'r dyddiad y daethant i rym. Bydd adran y Grŵp Trawsbleidiol perthnasol ar wefan y Senedd yn cael ei diweddaru yn unol â hynny.

### 8. Y cyfarfod cyffredinol blynyddol a’r Adroddiad Blynyddol a’r Datganiad Ariannol

8.1 Cyfarfod cyntaf y Grŵp Trawsbleidiol fydd ei gyfarfod cyffredinol blynyddol dechreuol. Yn dilyn hynny, rhaid i Grwpiau gynnal cyfarfod cyffredinol blynyddol bob 12 mis, lle mae'n rhaid i'r Grŵp enwebu a phleidleisio dros y deiliaid swyddi (gweler yr adran 'Ethol Deiliaid Swyddi' uchod). Rhaid i'r deiliaid swyddi gael eu hethol yn swyddogol yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol hyd yn oed os yw'r deiliad swydd wedi cael ei benodi eisoes mewn cyfarfod diweddar.

8.2 O fewn chwe wythnos i gyfarfod cyffredinol blynyddol (ac eithrio’r cyfarfod cyffredinol blynyddol dechreuol), rhaid i Grwpiau gyhoeddi Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol. Rhaid i'r adroddiad hwn gynnwys:

- aelodaeth y Grŵp ac enwau deiliaid y swyddi
- nifer y cyfarfodydd y mae'r Grŵp wedi'u cynnal ers y cyfarfod cyffredinol blynyddol diwethaf, pwy fu'n bresennol, a chrynodeb o'r materion a drafodwyd;
- enwau'r holl lobïwyr proffesiynol a'r sefydliadau gwirfoddol ac elusennol y mae'r Grŵp wedi cwrdd â nhw yn ystod y flwyddyn flaenorol;
- datganiad ariannol blynyddol sy'n nodi gwariant y Grŵp a pha fuddion a lletygarwch a gafodd y Grŵp. Rhaid i'r datganiad gynnwys dadansoddiad o gostau'r holl nwyddau a gwasanaethau a ddarparwyd, a'r buddion a gafwyd, ac enwau'r darparwr/darparwyr.

8.3 Rhaid i'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiad Ariannol gael eu cyhoeddi ar adran 'Grwpiau Trawsbleidiol' gwefan y Senedd.

## Cynnal Cyfarfodydd

### 9. Defnyddio Cyfleusterau ac Adnoddau'r Senedd

9.1 Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol fydd yn gyfrifol am sicrhau bod y Grŵp yn cydymffurfio â'r Rheolau a Chanllawiau ar Ddefnyddio Adnoddau’r Senedd. Mae hyn yn cynnwys neilltuo ystafelloedd a’r trefniadau sy’n gysylltiedig â’r cyfarfod

(megis hebrwng aelodau allanol) a darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o’r Gymraeg i'r Saesneg.

9.2 Nid oes gan Grwpiau Trawsbleidiol hawl i ddefnyddio unrhyw rai o wasanaethau staffio Comisiwn y Senedd. Fodd bynnag, caiff cyfieithu ar y pryd, o'r Gymraeg i'r Saesneg, ei ddarparu. Gellir darparu hyn os bydd Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol yn gwneud cais amdano.

9.3 Gellir cynnal cyfarfodydd Grŵp Trawsbleidiol a chyfarfodydd cyffredinol blynyddol wyneb yn wyneb, neu mewn fformat rhithwir neu hybrid yn ôl disgresiwn y Grŵp, ar yr amod bod pob Grŵp yn gwneud y trefniadau angenrheidiol ar gyfer cynnal cyfarfodydd o’r fath. Dylai Grwpiau gyfeirio at ganllawiau TGCh y Senedd ar gyfarfodydd rhithwir.

## 10. Darparu gwybodaeth yn ieithoedd swyddogol y Senedd

10.1 Bydd yr holl wybodaeth a ddarperir gan Gomisiwn y Senedd ynghylch Grwpiau Trawsbleidiol y mae'n ofynnol ei chyhoeddi ar wefan y Senedd o dan y rheolau hyn, ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg yn unol â darpariaethau Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012 a Chynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Senedd. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am aelodaeth, dyddiad a lleoliadau cyfarfodydd, cofnodion yr holl gyfarfodydd, gan gynnwys y cyfarfod cyffredinol blynyddol, a'r datganiad ariannol blynyddol.

10.2 Y Grŵp Trawsbleidiol ei hun fydd yn gyfrifol am wneud trefniadau i gyfieithu dogfennau sy'n gysylltiedig â'r Grŵp Trawsbleidiol nad oes angen eu cyhoeddi ar wefan y Senedd, os ydynt yn dymuno iddynt gael eu cyhoeddi’n ddwyieithog..

## 11. Cymorth ychwanegol

11.1 Ceir rhagor o fanylion ar y ddarpariaeth ar gyfer cymorth ychwanegol i ymgysylltu ag etholwyr ag anghenion ychwanegol ym mhennod 3A o'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau Aelodau: 2022-23 a gall y tîm Cymorth Busnes i’r Aelodau roi cyngor ychwanegol ar hyn.

## 12. Rhoi Gwybod am Gyfarfodydd Ymlaen Llaw

12.1 Fel arfer, cyfrifoldeb Cadeirydd y Grŵp fydd cyhoeddi gwybodaeth am amseroedd a lleoliadau cyfarfodydd y Grŵp ac ati gan gynnwys darparu amseroedd/lleoliad cyfarfodydd i swyddogion perthnasol Comisiwn y Senedd i'w cyhoeddi ar wefan y Grŵp Trawsbleidiol. Os yw'r swyddogaeth honno wedi cael ei dirprwyo i Ysgrifennydd y Grŵp, ni chaiff yr unigolyn hwnnw weithredu heb

gael sêl bendith Cadeirydd y Grŵp o flaen llaw. Rhaid i bob hysbysiad, gohebiaeth, dogfennaeth a threfniadau eraill ynghylch gweithgareddau'r Grŵp gael eu cyhoeddi yn enw'r Cadeirydd.

**13. Rheolau Ariannol a Chofrestru Buddiannau**

13.1 Ac eithrio i dalu am yr adnoddau a nodir yn adrannau 9-11 uchod, rhaid i aelodau'r Grŵp dalu am unrhyw gostau eraill o'r fath eu hunain.

13.2 Mae'n rhaid i Grwpiau Trawsbleidiol gofio am uniondeb y Senedd wrth ystyried derbyn unrhyw symiau arian, rhoddion, lletygarwch ac ati gan gyrff allanol. Yn benodol, mae gofyn i Aelodau unigol gydymffurfio â'r rheolau ynghylch cofrestru a datgan buddiannau ariannol mewn perthynas ag unrhyw weithgaredd y maent yn ymgymryd â hwy o fewn Grwpiau Trawsbleidiol neu ar ran y Grŵp - fel y'i nodwyd yn Rheol Sefydlog 2. Caiff Aelodau eu hatgoffa hefyd am ddarpariaethau Rheol Sefydlog 2.8, sy'n gwahardd lobïo am dâl neu gydnabyddiaeth ac sy'n drosedd o dan adran 36 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

13.3 Dylai adroddiad blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol restru'r holl fuddion a gafwyd gan y Grŵp cyfan, neu gan Aelodau unigol, gan gyrff allanol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw gymorth ysgrifenyddol neu wasanaethau cymorth eraill a ddarperir i'r Grŵp. Mae hyn yn ychwanegol i'r gofyniad bod Aelodau unigol o Grwpiau Trawsbleidiol yn cofrestru unrhyw symiau arian, rhoddion, lletygarwch neu fuddion eraill gan gyrff allanol ar Gofrestr Buddiannau'r Senedd (yn unol â Rheol Sefydlog 2).

**14. Cofnodion Cyfarfodydd**

Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol fydd yn gyfrifol am sicrhau bod cofnodion pob cyfarfod o'r Grŵp yn cael eu rhoi i swyddogion perthnasol Comisiwn y Senedd o fewn pedair wythnos i gynnal y cyfarfod. Rhaid i'r cofnodion gynnwys:

- manylion am leoliad y cyfarfod;
- pwy oedd yn bresennol, gan gynnwys enwau a theitlau deiliaid swyddi'r Grŵp fel y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd, enwau Aelodau'r Grŵp ac ymwelwyr neu westeion allanol, a
- disgrifiad cryno o'r materion a drafodwyd.

Bydd y cofnodion yn cael eu cyhoeddi ar adran y Grŵp Trawsbleidiol perthnasol ar wefan y Senedd.

## 15. Cydymffurfio â'r Rheolau

15.1 Cadeirydd y Grŵp, fel llofnodwr y ffurflen gofrestru, fydd yn bennaf cyfrifol am sicrhau bod y Grŵp yn cydymffurfio â'r rheolau, ond mae gan bob Aelod o’r Senedd sy’n aelodau o’r Grŵp Trawsbleidiol gyfrifoldeb dros sicrhau bod y Grŵp yn cynnal ei fusnes mewn modd priodol.

15.2 Gallai methu â chydymffurfio, neu dorri’r rheolau’n ymwneud â Grwpiau Trawsbleidiol yn cofrestru, ethol swydd-ddeiliaid, cynnal Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol neu ddarparu gwybodaeth sy’n ofynnol yn ôl y rheolau, arwain at ddileu cydnabyddiaeth y Grŵp ar awdurdod y Llywydd (byddai’r Grŵp yn cael ei ddadgofrestru a’i holl fanylion yn cael eu tynnu oddi ar wefan y Senedd).

15.3 Os oes gan unrhyw Aelod bryder ynghylch dehongli'r Rheolau, dylai gysylltu â swyddog/swyddogion Comisiwn y Senedd sydd â chyfrifoldeb dros gofrestru Grwpiau Trawsbleidiol yn yr achos cyntaf.

15.4 Dylai unrhyw gwynion ynghylch safonau ymddygiad personol, defnydd priodol o adnoddau'r Senedd a/neu gofrestru buddiannau yn unol â Rheol Sefydlog 2, mewn perthynas â gweithgareddau Aelod sy’n gysylltiedig â Grŵp Trawsbleidiol, gael eu gwneud i’r Comisiynydd Safonau yn unol â Gweithdrefn y Senedd ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd. Gall hyn arwain at osod sancsiynau ar Aelod penodol.

15.5 O dro i dro, gall y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ystyried papur gan swyddogion y Comisiwn sy'n ymdrin â chofrestru gwybodaeth am weithgareddau Grwpiau Trawsbleidiol ac, os yw'n angenrheidiol, gwneud argymhellion i'r Llywydd ynghylch cydymffurfio â'r rheolau hyn.